

# DOLEN Y TAB – 7

## 5–6 Mehefin 2020

---

### OEDFAON DYDD SUL 7 MEHEFIN

**10.30** [www.annibynwyr.org](http://www.annibynwyr.org)

*Oedfa Ddigidol i ddathlu Sul yr Amgylchedd gyda  
Robat Powell a chyfeillion Capel-y-nant, Clydach.*

**11.00 S4C Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol**

*Oedfa yng nghwmni Elin Maher, Capel Mynydd  
Seion, Casnewydd.*

**12.00** Oedfa Radio Cymru

*[Dim manylion pellach ar gael]*

+

Cofiwch hefyd fod *Cristnogaeth21* yn cyhoeddi  
e-fwletin ar eu gwefan bob bore Sul:

[www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

---

### HENO (NOS WENER, 5 MEHEFIN) AM 7 O'R GLOCH

Yn fyw i'ch cartrefi . . .

### CWIS ZOOM CAPEL Y TABERNAACL

**CWISFEISTRI:**

CERI ANWEN

&

MANON A GERAINT

ID: 886 3146 9252

CYFRINAIR: 391265

*CROESO I BAWB YMUNO!*

---

### BWRDD Y CYFARWYDDWYR

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd yn rhithiol yn gynnar  
ym mis Mehefin. Os oes unrhyw fater brys neu bwysig  
y carech ei godi, yna cysylltwch â Gwilym Huws  
([gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) / 01443 225205) erbyn  
nos Lun 8 Mehefin.

---

### CASGLIAD BANC BWYD TAF ELÁI

Gyda chyfnod casgliad Wythnos Cymorth Cristnogol wedi  
dod i ben, byddwn yn ail-afael yn ein casgliad ariannol ar  
gyfer Banc Bwyd Taf Elái. Mae mwy o bobl nag erioed yn  
dibynnu ar y Banc Bwyd yn ystod y cyfnod heriol hwn, a  
ninnau'n methu cynnal ein casgliad bwyd arferol  
oherwydd y cyfyngiadau presennol. Fe fyddwn ni'n dilyn  
y drefn ddiweddar o gyfrannu:

Trosglwyddiad banc:

Cod didoli 30 – 96 – 72

Rhif y cyfrif 03607499

Cyfeirnod Banc Bwyd Taf Elái

Siec yn daladwy i: Capel y Tabernacl Cyf  
gyda nodyn yn enwi Banc Bwyd Taf Elái

Anfoner at:

Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen,  
Llanharan, Pontyclun CF72 9TU

**DIOLCH YN FAWR I CHI AM EICH CEFNOGAETH**

---

### DIOLCHIADAU

Yn rhifyn Mehefin o *Tafod Elái* mae Loreen yn talu  
diolch i'r aelodau hynny, ynghyd â phobl ifanc y  
Twmiaid, sydd wedi cyfrannu at ein haddoliad ar  
wahanol lwyfannau digidol yn ystod y cyfnod clo. Braff  
yw medru ategu'r gwerthfawrogiad. Mae pob un o'r  
cyflwyniadau digidol wedi ein hatgoffa o'r gwerthoedd  
hynny rydym yn eu harddel fel eglwys, ond hefyd yn  
ein hatgoffa nad pawb sy'n medru rhannu'r  
cyflwyniadau hyn. Gobeithio'n fawr iawn y medrwn  
gyd-addoli unwaith yn rhagor yn y Tabernacl cyn bo  
hir.

### TAFOD Y TAB

Cyhoeddir rhifyn digidol o'r *Tafod* ddydd Sul  
5 Gorffennaf. Bydd y rhifyn hwn yn un arbennig iawn  
oherwydd bydd ynddo atodiad 12 tudalen 'Dathlu'r  
150' wedi ei olygu gan Emlyn Davies yn olrhain hanes  
yr achos o'r dyddiau cynnar hyd at ein dyddiau ni.

Unwaith eto, gwahoddir cyfraniadau – yn  
adroddiadau, portreadau, erthyglau, lluniau ac yn  
blaen – i weddill y rhifyn, a hynny **erbyn dydd Iau 25  
Mehefin**. Dylid anfon y cyfraniadau hyn mewn e-bost i  
[gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk). Gallwch hefyd bostio  
cyfraniadau at: Gwilym ac Eleri Huws, Tal-y-fan,  
9 Gerddi'r Sofran, Meisgyn, Pontyclun CF72 8SZ.

**DROSODD >**

## Y 'PLA' ARALL

Mae'r ystadegau mwyaf diweddar yn dangos bod dros 6.6 miliwn o achosion o COVID-19 wedi eu cofnodi'n fyd-eang, a thros 390,000 o farwolaethau. Ond er mor ddychrynllyd o frawychus yw'r ystadegau hyn, nid dyma'r unig 'bla' y mae angen ei ddileu o'n cymdeithas. Mae digwyddiadau'r 10 diwrnod diwethaf, gyda llofruddiaeth George Floyd yn Minneapolis gan heddwes, yn brawf digamsyniol bod hiliaeth yn parhau mor fyw ag erioed yn ein plith. Y tristwch yw bod cymhelliad hiliol dros fygwth, clwyfo a lladd unigolion yn ddigwyddiadau dyddiol yn yr UDA. Ond i wneud sefyllfa drychinebus yn waeth, dyma'r Arlywydd Trump yn manteisio ar yr argyfwng er ei les gwleidyddol ei hun gan ddefnyddio'r Beibl i'w gefnogi. Hyn a ysgogodd y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol i anfon y neges glir a phwerus isod at Lysgennad yr UDA ar ran aelodau'r Tabernacl.

### Annwyl Lysgennad UDA

*Ysgrifennwn atoch fel cynrychiolydd gwladol blaenllaw ac uchel ei barch, a ninnau'n ddinasyddion Cymreig pryderus iawn ac aelodau o eglwys sy'n arddel gwerthoedd ac egwyddorion Cristnogol. Ein bwriad yw amlygu ein syfrdandod a'n sioc oherwydd llofruddiaeth George Floyd drwy law Heddlu Gwladol, y gwrthdystiadau a'r raliau ddaeth yn ei sgil, ac amgyffred yr Arlywydd Donald Trump o'r argyfwng a'i ymateb ymosodol.*

*Rydym yn casáu hiliaeth â chas perffaith, yn credu yn yr hawl i wrthdystio, ac wedi'n tristáu o weld fel mae rhai cyfarfodydd wedi tyfu'n derfysgoedd. Fodd bynnag, gwerthfawrogwn yr ofn a'r rhwystredigaeth sy'n gyrru pobl i'r fath eithafion, ac rydym wedi'n brawychu gan elyniaeth yr Arlywydd Trump at ei bobl ei hun.*

*Daeth hyn i'w benllanw yn y digwyddiad anfaddeuol y tu allan i Eglwys Sant Ioan, pan wthiwyd gwrthdystwyr ac arweinwyr ac aelodau eglwysig o'r neilltu yn dreisgar er mwyn paratoi lle i'r Arlywydd Trump gael annerch newyddiadurwyr y byd mewn modd heriol tra'n arddangos Beibl, a thrwy hynny'n gwaethygu sefyllfa oedd eisoes yn ymfflamychol.*

*Cydymdeimlwn yn llwyr â lleiafrifoedd ethnig America sy'n byw mewn ofn parhaus o gael eu harestio a'u gwaradwyddo, poenwn am*

*sefydlogrwydd eich cenedl, a gwerthfawrogwn rwystredigaeth Americanaid da a chyfrifol sydd am wneud America'n ddiogel unwaith eto.*

*Yn gywir*

*Ann D. Davies (Ysgrifennydd) /  
John Ll. Thomas (Cadeirydd)*

*Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol  
Capel y Tabernacl, Efail Isaf*

*Diolch i swyddogion y Gweithgor am anfon y neges hon ar ein rhan.*

*Yn anffodus, nid dyma'r unig lofruddiaeth hiliol ddiweddar yn yr UDA sydd wedi ennyn sylw byd-eang. Ar 23 Chwefror saethwyd Ahmaud Arbery, pan oedd allan yn loncian yn Brunswick, Georgia wedi iddo gael ei erlid mewn car gan dad a mab. Dim ond ar ôl i fideo o'r digwyddiad ddod i'r golwg y cafodd y ddau eu harestio am y lofruddiaeth. Gallwch wyllo pregeth deyrnged i Ahmaud gan y Parchedig Ddr Ottis Moss III ar YouTube sy'n gosod y llofruddiaeth yng nghydestun hiliaeth yn yr UDA dros y cenedlaethau.  
<https://www.youtube.com/watch?v=l6985UG0Z3k>*

---

## YR AMLENNI GWYN A BROWN

Gallwch gyfrannu i gronfa'r eglwys (amlenni gwyn) a/neu gronfa'r elusennau (amlenni brown) drwy anfon siec yn daladwy i *Capel y Tabernacl Cyf.* at ein Trysorydd: Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU. Neu gallwch wneud trosglwyddiad banc i gyfrif y capel, gan nodi Casgliad Amlenni Gwyn neu Casgliad Amlenni Brown ynghyd â'ch rhif aelodaeth yn y blwch lle gofynnir am gyfeirnod:

Enw'r cyfrif: Capel y Tabernacl Cyf.

Cod didoli: 30 – 96 – 72; Rhif y cyfrif: 03607499.

***Diolch am bob cefnogaeth.***

---

*Cylchlythyr wythnosol yw hwn i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i aelodau'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org). Cofiwch argraffu copi i'r aelodau hynny sydd heb gysylltiad â'r we. Anfonwch unrhyw newyddion sydd gennych i'w rhannu erbyn nos lau yn wythnosol i: [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) / 01443 225205.*